# Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

**2013 dccc 5**

*Cydsynio*

**6 Cydsynio: plant**

(1) Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cydsyniad at ddibenion adran 3 mewn perthynas â gweithgaredd trawsblannu sy'n ymwneud â chorff, neu ddeunydd perthnasol o gorff, person sy'n blentyn neu sydd wedi marw'n blentyn.

(2) Yn achos person sy'n blentyn neu sydd wedi marw'n blentyn mae angen cydsyniad datganedig.

(3) Ar gyfer pob achos a grybwyllir yng ngholofn gyntaf Tabl 3 mae ystyr cydsyniad datganedig wedi ei ddarparu yn ail golofn y tabl—

TABL 3

| Yr achos | Ystyr cydsyniad datganedig |
|---|---|
| 1. Mae'r plentyn yn fyw ac nid yw achos 2 yn gymwys. | Cydsyniad y plentyn. |
| 2. Mae'r plentyn yn fyw, nid oes unrhyw benderfyniad gan y plentyn i gydsynio, neu i beidio â chydsynio, i'r gweithgaredd mewn grym, a naill ai nid yw'r plentyn yn gymwys i ymdrin â'r mater o gydsynio neu mae'n gymwys i ymdrin â'r mater ond yn methu â gwneud hynny. | Cydsyniad person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. |
| 3. Mae'r plentyn wedi marw ac yr oedd penderfyniad gan y plentyn i gydsynio, neu i beidio â chydsynio, i'r gweithgaredd mewn grym yn union cyn iddo farw. | Cydsyniad y plentyn. |

| Yr achos | Ystyr cydsyniad datganedig |
|---|---|
| 4. Mae'r plentyn wedi marw, nid yw achos 3 yn gymwys, yr oedd y plentyn wedi penodi person neu bersonau i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r weithgaredd ac mae rhywun yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad. | Cydsyniad a roddir gan y person neu'r personau a benodir. |
| 5. Mae'r plentyn wedi marw, nid yw achos 3 yn gymwys ac yr oedd y plentyn wedi penodi person neu bersonau i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r gweithgaredd, ond nid oes neb yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad. | Cydsyniad person a oedd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn union cyn i'r plentyn farw, neu pan nad oes unrhyw berson o'r fath yn bodoli, cydsyniad person y mae perthynas gymhwysol rhyngddo a'r plentyn yr adeg honno. |
| 6. Mae'r plentyn wedi marw ac nid yw achosion 3, 4 na 5 yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn. | Cydsyniad person a oedd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn union cyn i'r plentyn farw, neu pan nad oes unrhyw berson o'r fath yn bodoli, cydsyniad person y mae perthynas gymhwysol rhyngddo a'r plentyn yr adeg honno. |

(4) Yn yr adran hon, nid yw penderfyniad neu benodiad a wneir gan blentyn ond yn ddilys os oedd y plentyn yn gymwys i ymdrin â'r mater o gydsyniad wrth ei wneud.

(5) Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at benodiad person neu bersonau i ymdrin â'r mater o gydsyniad yn gyfeiriad at benodiad o dan adran 8.

(6) Nid yw'r adran hon yn gymwys i gydsyniad i weithgaredd trawsblannu sy'n ymwneud â thynnu deunydd perthnasol a eithrir (gweler adran 7 am ddarpariaeth mewn perthynas â hyn).